


Gofalu am Les Anifeiliaid wrth eu Cludo



Cyngor i gludwyr ceffylau, merlod,
asynnod a'u tebyg



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Os hoffech gyfarwyddiadau manwl, ffurflenni neu fwy o gyngor, ewch ar y wefan:

www.cymru.gov.uk/llesanifeiliaid

neu cysylltwch â :

Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 823059



ISBN 978 0 7504 4761 4

© Hawffraint y Goron Gorffennaf 2008

CMK-22-01-096

DI350809

Daeth Rheoliad newydd gan yr UE ar gyfer cludo anifeiliaid i rym ar 5 Ionawr 2007.

Os ydych chi'n cludo anifeiliaid, dylech ofalu'ch bod yn gwybod am y rheolau a'r trefniadau newydd sy'n effeithio arnoch chi. Nod y rheolau newydd yw gofalu am les ceffylau a merlod wrth eu cludo. **Daeth y rheolau i rym ar 5 Ionawr 2007** ac maen nhw'n effeithio ar unrhyw un sy'n cludo anifail asgwrn cefn fel rhan o weithgarwch economaidd.

Bydd gofyn i unrhyw un sy'n cludo ceffylau a merlod ystyried nifer o bwyntiau penodol. Mae disgrifiad bras ohonyn nhw yn y daflen hon. Cewch gyngor a gwybodaeth fanylach ar y wefan: www.cymru.gov.uk/llesanifeiliaid

Ydy'r rheolau newydd yn effeithio arnoch chi?

Mae'r Rheoliad yn effeithio ar bawb sy'n cludo anifeiliaid at bwrpas economaidd. Ym Mhrydain, mae hyn yn golygu cludo anifeiliaid at bwrpas busnes i wneud elw, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i berson neu gwmni sy'n gysylltiedig â'u cludo. Nid yw'r Rheoliad yn ymwneud â:

- Cludo anifail at bwrpas nad yw'n weithgarwch economaidd.
- Cludo anifail i bractis neu filfeddygfa o dan gyngor milfeddyg.



Yn ôl y Rheoliad, rhaid i bawb sy'n cludo anifail ar unrhyw daith wneud yn siwr:

- Na chaiff anifail ei gludo mewn ffordd fyddai'n debygol o achosi poen neu ddiodefaint diangen iddo.
- Bod y daith mor fyr â phosibl.
- Bod yr anifail yn ffit i deithio.
- Bod y rheini sy'n trin yr anifail wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i wneud hynny.
- Bod y cerbyd a'i gyfleusterau llwytho a dadlwytho wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i osgoi anafiadau a dioddefaint.
- Bod anifeiliaid yn cael dŵr, bwyd a chyfle i orffwys yn ôl yr angen, a bod digon o lawr ganddynt a digon o uchder yn y cerbyd.
- Os nad ydych yn allforio'r anifail, bod gennych ddogfen sy'n dangos y canlynol: o ble daeth yr anifail; ei berchennog; man cychwyn y daith a phen y daith; dyddiad cychwyn y daith a hyd tebygol y daith (y Dystysgrif Cludo Anifeiliaid yw'r ddogfen hon fel arfer).

Mae gofynion ychwanegol os ydych yn cludo ceffylau a merlod ar deithiau 'byr' dros 65km (tua 40 milltir) sy'n para hyd at 8 awr.

Rhaid i gludwyr:

- Fod wedi cael tystysgrif awdurdodi cludwyr Math 1.
- Sicrhau (o 5 Ionawr 2008) bod gan yrwyr a'u cynorthwywyr dystysgrif cymhwysedd.

- Dangos bod ganddynt staff ac offer i gludo anifeiliaid mewn ffordd briodol ac nad oes cofnod iddynt dorri deddfwriaeth lles anifeiliaid yn y 3 blynedd diwethaf.

Yn ogystal â'r uchod, mae nifer o ofynion eraill ar gyfer teithiau 'hir' o fwy nag 8 awr.

Rhaid i gludwyr ceffylau a merlod:

- Fod wedi cael tystysgrif awdurdodi cludwyr Math 2.
- Gofalu bod unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo ceffylau a merlod yn cael ei archwilio a'i gymeradwyo.
- Gofalu bod ganddynt gynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfwng.
- Llenwi Log y Daith wrth allforio ceffylau a merlod sydd heb eu cofrestru.

Gofynion penodol

Amserau teithio

Nid yw'r amserau teithio a gorffwys wedi newid ers y rheolau diwethaf. Nid yw'r adran hon yn berthnasol i geffylau a merlod sydd wedi'u cofrestru - gweler tudalen 6.

Amserau teithio mwyaf (oriau)

	Cerbyd o safon sylfaenol	Cerbyd o safon uwch		
		Teithio		
Ceffylau a merlod	8	24 (a chael dŵr, a bwyd os oes angen bob 8 awr)		
		Teithio	Gorffwys	Teithio
Ebolion	8	9	1	9

- Mae'r amser teithio yn cychwyn wrth lwytho'r anifail cyntaf ac yn gorffen wrth ddadlwytho'r anifail olaf.
- Mae'r amser a dreulir ar longau Roll-On/Roll-Off (Ro-Ro) yn cyfrif at hyd y daith.
- Nid yw'r amser a dreulir mewn llociau ar longau anifeiliaid arbennig yn cyfrif at amser y daith cyn belled â bod rhai amodau yn cael eu bodloni.
- Nid yw'r amser a dreulir mewn awyren yn cyfrif at amser y daith.

Cyffredinol

- Rhaid rhoi ffrwyn ym mhen pob ceffyl a merlyn dros 8 mis wrth ei gludo - ond nid ceffylau heb eu dofi.
- Os ydych yn cludo ceffylau neu ferlod ar gerbyd aml-lawr, rhaid eu cludo ar y llawr isaf a gofalu nad oes anifeiliaid eraill ar y lloriau

uwch eu pennau. Rhaid i do'r llawr fod o leiaf 75cm yn uwch nag uchder ysgwyddau'r anifail talaf.

- Ar longau RO-RO, rhaid cludo ceffylau a merlod mewn stalau unigol, ond caiff caseg deithio gyda'i hebol.
- Rhaid peidio â chludo grwpiau o fwy na phedwar o geffylau a merlod heb eu dofi gyda'i gilydd.

Teithiau hir (dros 8 awr)


- Rhaid i geffylau heb eu cofrestru fod dros 4 mis oed oni bai eu bod yn teithio gyda'u mam.
- Rhaid peidio â chludo ceffylau heb eu dofi ar deithiau hir.
- Rhaid cludo ceffylau mewn stalau unigol, ond caiff caseg deithio gyda'i hebol.

Onglau rampiau ar gyfer llwytho a dadlwytho

Mae'r rheoliad yn pennu ongl uchaf newydd o

- 20° ar gyfer ceffylau (36.4% o lethr, yn cyfateb i oleddf o 4 dros bellter o 11)
- Nid oes yn rhaid defnyddio gatiâu ochr os ydych yn arwain y ceffyl â ffrwyn.

Os oes gennych gerbyd a threilar gafodd eu hadeiladu a'u defnyddio cyn 5 Ionawr 2007 a'u bod yn cydymffurfio â'r hen reol ar onglau rampiau, gallwch barhau i'w defnyddio ym



Mhrydain tan 4 Ionawr 2012 os nad yw'n ymarferol neu'n economaidd eu haddasu i gydymffurfio â'r rheol newydd.

Ceffylau a merlod wedi'u cofrestru

Mae ceffyl neu ferlyn wedi'i gofrestru'n golygu anifail sydd wedi'i gofrestru ar lyfr gre neu gyda chorff rhyngwladol sy'n cynnal cystadlaethau (fel y'i diffinnir yng Nghyfarwyddeb 90/426/EEC a 90/427/EEC) - nid yw hyn yn golygu'r un peth â chael pasbort ceffylau. Ceir eithriadau yn y Rheoliad ar gyfer ceffylau a merlod wedi'u cofrestru, os oes rhywun yn teithio gyda nhw ar hyd y daith ac os mai pwrpas y daith yw gwella'u hiechyd a'u lles:

- Cewch gludo cesyg yn ystod 10% olaf eu beichiogrwydd.
- Cewch gludo cesyg o fewn wythnos ar ôl geni ebol.
- Cewch gludo ebolion â'u bogeilau heb wella gyda'u mam.

Ceir eithriadau yn y Rheoliad ar gyfer ceffylau a merlod wedi'u cofrestru sydd ar daith o fwy nag 8 awr (oni bai eu bod yn cael eu cludo i farchnad neu i ladd-dy) h.y. caniateir:

- Eu cludo heb fod angen Log Teithio.
- Eu cludo heb y gofynion o ran egwylau dyfrio a bwydo, amserau teithio a chyfnodau gorffwys sydd eu hangen ar gyfer ceffylau a merlod heb eu cofrestru.

- Cludo anifeiliaid pedwar mis oed neu lai heb eu mam.

Cadw ar wahân

Rhaid trin a chludo ceffylau a merlod ar wahân i anifeiliaid eraill*. Rhaid cadw'r canlynol hefyd ar wahân:


- Ceffylau a merlod o oed neu faint gwahanol iawn*.
- Meirch magu llawndwf oddi wrth ei gilydd.
- Meirch a chesyg rhywiol aeddfed.
- Anifeiliaid fyddai'n ymladd â'i gilydd.
- Anifeiliaid wedi'u clymu ac anifeiliaid heb eu clymu.

Faint o le i'w neilltuo

Nid yw faint o le sydd angen ei neilltuo wedi newid ers y rheolau diwethaf.

Categori	Arwynebedd (m²/anifail)
Ceffylau llawndwf	1.75 m ²
Ceffylau ifanc (6-24 mis oed) ar gyfer teithiau o hyd at 48 awr	1.2 m ²
Ceffylau ifanc (6-24 mis oed) ar gyfer teithiau o fwy na 48 awr	2.4 m ²
Merlod (o dan 144cm)	1.0 m ²
Ebolion (0-6 mis oed)	1.4 m ²

* Nid oes angen cadw at y rheol hon os ydy'r anifeiliaid wedi'u magu ag anifeiliaid eraill; os ydynt yn gyfarwydd â'i gilydd a lle byddai'u gwahanu yn achosi gofid; neu gesyg ag ebolion wrth droed.



Yn ystod teithiau hir, rhaid i ebolion a cheffylau ifanc allu gorwedd. Mae'r Rheoliad yn nodi hefyd y gallai'r union amgylchiadau olygu bod angen mwy o le.

Y tymheredd yn y cerbyd

- Rhaid gofalu nad yw'r tymheredd yn y cerbyd yn cwmpo o dan 0°C yn ystod taith o fwy nag 8 awr.

Partisiynau ar gerbydau

Nid yw'r Rheoliad yn diffinio dimensiynau partisiynau ond rhaid:

- Iddynt fod yn ddigon cryf i ddal pwysau'r anifail.
- Bod modd eu gosod yn gyflym ac yn rhwydd.

Ar gerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer teithiau dros 8 awr, rhaid bod partisiynau:

- Wedi'u gosod er mwyn ichi allu rhannu'r cerbyd a
- Bod modd eu symud yn ôl anghenion yr anifail sy'n cael ei gludo.

Cyngor pellach

Mae'r daflen hon yn crynhoi gofynion Rheoliad yr UE mewn cysylltiad â cheffylau a merlod. Mae taflenni eraill wedi'u cyhoeddi ar gyfer defaid, geifr, moch, gwartheg a dofednod.